Adroddiad	i'r Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	28 Hydref 2022
Aelod Arweiniol/ Swyddog	Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Swyddog Monitro/ Llywodraethu a Busnes
Awdur yr Adroddiad	Lisa Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/ Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl	Adroddiad Blynyddol y Cadeiryddion

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau i alluogi'r Pwyllgor llawn gael golwg a chyfrannu at Adroddiad Blynyddol y Cadeiryddion, cyn i'r eitem gael ei gyflwyno i'r cyngor llawn. Mae'r adroddiad drafft ynghlwm yn Atodiad 1.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd gan Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 Nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Darparu sylwadau i'r Swyddog Monitro ar gynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir safbwyntiau'r Pwyllgor hwn.

3.3 Argymell bod y Cadeirydd yn cyflwyno hwn i'r Cyngor Llawn

4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad drafft ynghlwm yn Atodiad 1 i'w ystyried.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn helpu i ategu gwaith y Cyngor i weithredu ei swyddogaethau democrataidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig gyda'r adroddiad hwn ac nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y gwasanaethau eraill o ganlyniad yr adroddiad hwn

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi eu hystyried yn ofynnol; mae'r adroddiad hwn mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau a'u bod yn fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor a'r Cadeirydd o ran cadw at god ymddygiad Aelodau a sylwadau o ran uniondeb a moeseg yn gyffredinol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u nodi.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006